

## Disgrifiad Swydd:

# Swyddog Cynhyrchiant Fferm: Effeithlonrwydd a Chynaliadwyedd y Diwydiant – Cyfnod Penodol o Dair Blynedd

### Trosolwg o'r Sefydliad:

Hybu Cig Cymru (HCC) yw'r corff strategol sy'n gyfrifol am ddatblygu, hyrwyddo a marchnata cig coch Cymru. Ei genhadaeth yw cefnogi datblygiad diwydiant cig coch Cymru sy'n broffidiol, effeithlon, cynaliadwy ac arloesol, sy'n ymateb yn gystadleuol i dueddiadau marchnad sy'n newid yn barhaus.

### Trosolwg o'r Swydd:

Bydd y Swyddog Cynhyrchiant Fferm ar gyfer Effeithlonrwydd a Chynaliadwyedd y Diwydiant yn cefnogi mentrau i wella cynhyrchiant a chynaliadwyedd ar draws cadwyn gyflenwi'r diwydiant cig coch yng Nghymru.

Bydd deiliad y swydd yn gweithio'n agos gyda ffermwyr, proseswyr, ymgynghorwyr a rhanddeiliaid i ddatblygu, darparu a gwerthuso metrigau effeithlonrwydd a chynaliadwyedd, gan sicrhau bod sectorau cig eidion a defaid Cymru yn gystadleuol ac yn hyblyg dros dymor hir.

Bydd y rôl hon yn chwarae rhan allweddol wrth ddefnyddio data, ymchwil ac arferion gorau ar gyfer gwelliannau ymarferol i ffermydd a busnesau. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cefnogi HCC wrth iddo gyflwyno'r Peilot Sylfaenu Amgylcheddol ar wyth fferm cig coch ledled Cymru, gan wella perfformiad economaidd trwy fentrau cydweithredol sy'n ymwneud â Chost Cynhyrchu ac Archwilio Carbon ynghyd â bod yn barod i'r farchnad.

Bydd y rôl yn helpu i gyflawni'r ail o dair blaenoriaeth allweddol y sefydliad:

*'Datblygu gweithrediad mentrau sy'n gwella cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol y diwydiant cig coch yng Nghymru.'*

### Y Prif Gyfrifoldebau Atebolrwydd a Gweithgareddau Allweddol:

#### Cost Cynhyrchu a Phroffidioldeb

- Gweithio ar y cyd â phartneriaid ar **ddadansoddi cost cynhyrchu (COP)**, meincnodi, a pherfformiad ariannol ar draws y sector cig coch.
- Helpu i ddatblygu a hyrwyddo offer modelu 'Beth os', canllawiau, ac adnoddau er mwyn i ffermwyr a busnesau **ddeall, monitro a rheoli costau cynhyrchu** yn well.

- Nodi gyrwyr cost allweddol a bylchau cynhyrchiant a chynnig **ymyriadau ymarferol** i wella elw a gwydnwch busnesau.
- Cefnogi'r defnydd o ddata ariannol a thechnegol wrth wneud penderfyniadau ar lefel y fferm a'r gadwyn gyflenwi.

### **Gwella Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd**

- Nodi prosiectau sy'n gwella **effeithlonrwydd technegol**, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i:
  - Perfformiad anifeiliaid
  - Effeithlonrwydd porthiant
  - Effeithlonrwydd defnyddio adnoddau
- Gweithio gydag ymgynghorwyr, ffermydd arddangos, a phroseswyr i arddangos **arferion gorau ac arloesedd**.
- Cefnogi trosglwyddo gwybodaeth trwy gyflawniad rhanddeiliaid a phartneriaid cydweithredol.

### **Integreiddio Cynaliadwyedd**

- Sicrhau bod mentrau effeithlonrwydd a phroffidioldeb yn cyd-fynd ag **amcanion cynaliadwyedd amgylcheddol**, gan gynnwys:
  - Effeithlonrwydd adnoddau
  - Effeithlonrwydd carbon fesul uned o allbwn
  - Cynaliadwyedd busnes hirdymor
- Cyfrannu at waith HCC ar fertigau cynaliadwyedd Sylfaenu Amgylcheddol, adrodd, a negeseuon i'r diwydiant

### **Data, Dadansoddi a Thystiolaeth**

- Gweithio gyda phartneriaid mewnol ac allanol i gasglu, dadansoddi a dehongli **data technegol ac ariannol**.
- Comisiynu neu gyfrannu at brosiectau ymchwil sy'n ymwneud â chynhyrchiant ac effeithlonrwydd.
- Gwerthuso canlyniadau rhaglenni a chynhyrchu adroddiadau clir sy'n dangos dylanwad a gwerth am arian.

### **Ymgysylltu a Chydweithio â Rhanddeiliaid**

- Adeiladu a chynnal perthynas waith gryf gyda ffermwyr, proseswyr, talwyr ardoll, ymgynghorwyr, academyddion, a chyrrff y diwydiant.
- Cynrychioli HCC mewn cyfarfodydd, digwyddiadau a gweithgору'r diwydiant.
- Cefnogi cydweithio â Llywodraeth Cymru, partneriaid cyflawni, a sefydliadau ymchwil.

### **Cyfraniad Mewnol**

- Cyfrannu at gynllunio strategol HCC, ei gynlluniau busnes ac argymhellion ariannu.

- Cefnogi gweithio ar draws timau i sicrhau bod negeseuon yn gyson a bod cyfraniad cydgysylltiedig o ran datblygu'r diwydiant, marchnata, a gweithgaredd cynaliadwyedd.

## Rhagofyniad Personol: Swyddog Cynhyrchiant Fferm – Effeithlonrwydd a Chynaliadwyedd y Diwydiant

<p><b>Gwybodaeth</b></p>	<p>Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn amaethyddiaeth, busnes amaethyddol, economeg, rheolaeth amgylcheddol, neu ddisgyblaeth gysylltiedig.</p>	<p>Cymhwyster ôl-raddedig neu achrediad proffesiynol mewn rheoli busnes fferm neu gynaliadwyedd.</p>
<p><b>Profiad a Sgiliau</b></p>	<p>Dealltwriaeth dda o systemau cynhyrchu da byw, yn enwedig cig eidion a/neu ddefaid</p> <p>Profiad amlwg mewn rheoli busnes fferm a meincnodi.</p> <p>Profiad o ddadansoddi ar sail data, gyda'r gallu i drosi data yn gyngor clir ac ymarferol ar gyfer cynulleidfaedd o'r diwydiant.</p> <p>Sgiliau cyfathrebu rhagorol, yn ysgrifenedig ac ar lafar.</p> <p>Dealltwriaeth dda o gadwyn gyflenwi'r diwydiant cig coch.</p> <p>Sgiliau da o ran meddwl strategol, gwneud penderfyniadau, a dylanwadu.</p> <p>Gallu ariannol cryf, gan gynnwys rheoli cyllidebau ac adrodd.</p> <p>Gallu cyfathrebu ac ysgrifennu adroddiadau yn rhugl a chroyw.</p> <p>Yn llythrennog mewn TG ac angerdd dros gyflwyno yn brydlon a rhoi sylw i fanylion.</p>	<p>Mae'r gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg – ar lafar ac yn ysgrifenedig – yn fanteisiol iawn.</p> <p>Profiad o weithio o fewn corff ardoll amaethyddol, gwasanaeth ymgynghori, neu sefydliad bwyd-amaeth.</p> <p>Profiad o gyllidebu ac o gost cynhyrchu ar fferm.</p> <p>Profiad o archwilio carbon ar fferm.</p> <p>Gwybodaeth am fframweithiau cynaliadwyedd, effeithlonrwydd carbon, neu effeithlonrwydd defnyddio adnoddau mewn amaethyddiaeth.</p> <p>Yn gyfarwydd â chyd-destun amaethyddiaeth a pholisi yng Nghymru.</p>

	Trwydded yrru gyfredol.	Profiad o gomisiynu neu reoli prosiectau ymchwil gymhwysol.
--	-------------------------	---